

**Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol  
 Dydd Mercher, 13 Mai 2015  
 Ystafell William Morgan, Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam**

**Yn bresennol:**

- Aelodau (Coleg): Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Dr Myfanwy Davies, Dr Dylan Foster Evans, Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Gwilym Dyfri Jones, Gwerfyl Roberts
- Aelodau (Sefydliad): Julie Brake (prynhawn), Dr Heledd Iago, Gwawr Jones, Llŷr Roberts, Yr Athro Enlli Thomas
- Aelodau (Myfyrwyr): Jacob Ellis, Poppy Evans, Aled Thomas
- Aelodau (Colegau Cymru): Llinos Roberts (tan 2.50), Linda Wyn (tan 3.25)
- Swyddogion: Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Gwennan Schiavone (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd), Nia Brown (Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth), Mari Fflur (Swyddog Cyhoeddiadau)
- Ymddiheuriadau: Rhydian Birkinshaw, Yr Athro Siwan Davies, Fflur Elin, Dr Jeremy Evas, Dr Gwenno Ffrancon, Catrin Howells, Dr Anwen Jones, Gwyndaf Lewis, Dr Lisa Lewis, Yr Athro Densil Morgan, Delyth Murphy, Yr Athro Gwynedd Parry, Yr Athro Eleri Pryse, Dr Angharad Naylor, Carys Swain, Dr Siân Wyn Siencyn, Yr Athro Deri Tomos

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<b>1. Croeso a Sylwadau Agoriadol</b>	1.1. Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Deon. 1.2. Diolchwyd i Brifysgol Glyndŵr am letya'r cyfarfod. 1.3. Croesawyd Dr Heledd Iago, Prifysgol Abertawe (ar ran Dr Gwenno Ffrancon) a Gwawr Jones, Prifysgol De Cymru (ar ran Dr Lisa Lewis). Estynnwyd croeso, yn ogystal, i Mari Fflur, Swyddog Cyhoeddiadau'r Coleg. 1.4. Croesawyd Poppy Evans ac Aled Thomas, cynrychiolwyr myfyrwyr 2015/16, i'w cyfarfod cyntaf. 1.5. Nodwyd llongyfarchiadau i Gwilym Dyfri Jones ar ei benodiad yn aelod o Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>Gofynnwyd iddo gyflwyno llongyfarchiadau'r Bwrdd Academaidd i Brifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant ar lwyddiant eu cais i weithredu fel Endid Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion.</p> <p>1.6. Cyfeiriodd y Deon at bwysigrwydd trafodaethau'r Bwrdd Academaidd gan fod unrhyw argymhellion yn bwydo i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr, sef corff llywodraethol y Coleg.</p>		
<p><b>2. Ymddiheuriadau a datganiadau o ddiddordeb</b></p>	<p>2.1. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod.</p> <p>2.2. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi.</p>		
<p><b>3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2015</b></p>	<p>3.1. Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.</p>		
<p><b>4. Aelodaeth</b></p>	<p>4.1. Nodwyd bod sawl sedd wag ar y Bwrdd Academaidd yn sgil newid swyddi, tymor gwasanaeth yn dod i ben ac ymddeoliad.</p> <p>4.2. Adroddwyd bod y prosesau priodol yn mynd rhagddynt i lenwi'r bylchau ac y byddai'r swyddogion yn gweithredu drwy ohebiaeth er mwyn llenwi'r lleoedd hyn erbyn mis Medi 2015.</p> <p>4.3. Cytunwyd i ohebu'n ffurfiol â Dr Siân Wyn Siencyn i ddiolch iddi am ei chyfraniad a'i chefnogaeth ac i ddymuno'n dda iddi ar ei hymddeoliad.</p> <p>4.4. Cafwyd adroddiad llafar ar gynrychiolaeth myfyrwyr ar y Bwrdd Academaidd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2015/16. Nodwyd y penodwyd y canlynol:  <b>Cynrychiolwyr Prifysgolion y De Ddwyrain</b> – Catrin Howells, Prifysgol Caerdydd a Rhydian Birkinshaw, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd  <b>Cynrychiolwyr Prifysgolion y De Orllewin</b> – Aled Bryn</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>Thomas, Prifysgol Abertawe a Gwyndaf Lewis, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant  <b>Cynrychiolwyr Prifysgolion y Gogledd Orllewin</b> – Fflur Elin, Prifysgol Bangor a Poppy Evans, Prifysgol Aberystwyth  <b>Cynrychiolydd Ôl-Raddedig</b> – Jacob Ellis, Prifysgol Caerdydd  <b>Swyddog UCMC</b> – Siôn Davies</p> <p>4.5. Diolchwyd i'r myfyrwyr a fu'n aelodau yn 2014/15 am eu cyfraniadau adeiladol.</p>		
<p><b>5. Cynlluniau pynciol (BA/15/02/5a)</b></p>	<p>5.1. Cyflwynwyd diweddariad o'r cynlluniau pynciol sydd eisoes wedi'u cyflwyno i'r Bwrdd Academaidd. Nodwyd bod colofnau ychwanegol i'r tabl pynciol erbyn hyn sy'n nodi data swyddogol diweddaraf y Cyngor Cyllido ar gyfer 2013/14, dyddiad adolygu cynllun a dyddiad llunio cynllun newydd. Nodwyd sefyllfa gyfredol nifer o'r cynlluniau gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) Cymraeg – eglurwyd er nad oedd y cynllun yn yr un fformat â'r gweddill yr oedd yn gynllun gweithredol ers cyn dyddiau'r Coleg ac y byddai modd adolygu'r cynllun yn ystod 2015/16.</li> <li>(ii) Diwinyddiaeth – cytunwyd y byddai swyddogion y Coleg yn trefnu cyfarfod i drafod cynllun cyflawn gan fod gweithgaredd wedi bodoli ers cyn sefydlu'r Coleg.</li> <li>(iii) Diwydiannau Creadigol – nodwyd y bwriad i adolygu'r cynllun yn y dyfodol agos.</li> <li>(iv) Nodwyd bod cynlluniau Cerddoriaeth, Addysg ac Athroniaeth wedi'u cwblhau (adroddiad statws 1).</li> <li>(v) Cyfrifiadureg - nodwyd bod tri sefydliad wedi datgan diddordeb a bod angen nodi'r wybodaeth honno er mwyn cwblhau'r cynllun ymhen mis a</li> </ul>	<p>Diweddarau'r ddogfen cynlluniau pynciol a'i chyflwyno i'r cyfarfod nesaf</p> <p>Adolygiad</p> <p>Swyddogion i drefnu cyfarfod</p> <p>Adolygiad</p> <p>Newid statws</p> <p>Nodi'r wybodaeth</p>	<p>14 Hydref 2015</p> <p>2015/16</p> <p>Tymor yr Haf 2015</p> <p>Medi 2015</p> <p>Mai 2015</p> <p>Mehafin 2015</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<p>(BA/15/02/5c)</p> <p>(BA/15/02/5ch)</p>	<p>byddai modd newid yr adroddiad statws i 1 bryd hynny.</p>		
	<p>(vi) Peirianeg – nodwyd bod cynllun terfynol wedi'i gyflwyno a bod modd newid yr adroddiad statws i 1.</p>	Newid statws	Mai 2015
	<p>5.2. Cyflwynwyd cynlluniau ym meysydd Hanes a Chelf a Dylunio. Yn dilyn trafodaeth cymeradwywyd y cynllun Hanes gyda chywiriad (adroddiad statws 1). Cytunwyd i ail-gyflwyno'r cynllun Celf a Dylunio yng nghyfarfod yr hydref ar ôl derbyn mewnbwn gan ragor o sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach.</p>	Cywiro a newid statws	Mai 2015
	<p>5.3. Derbyniwyd adroddiad ar yr adolygiad pynciol Daearyddiaeth.</p>	Newid i staws 1 Ail-gyflwyno Celf a Dylunio	Mai 2015 14 Hydref 2015
	<p>5.4. Nodwyd mai'r cynlluniau a fydd yn cael eu hadolygu nesaf fydd: Diwydiannau Creadigol, Gwleidyddiaeth a Gwyddorau Chwaraeon.</p>	Cyflwyno adolygiadau pynciol: Diwydiannau Creadigol, Gwleidyddiaeth a Gwyddorau Chwaraeon i'r cyfarfod nesaf	14 Hydref 2015
	<p>5.5. Cyflwynwyd proses adolygu cynlluniau pynciol gan y Cofrestrydd. Yn dilyn trafodaeth a oedd yn argymhell cynnwys profiad y myfyriwr cymeradwywyd y broses. Cytunwyd i ddarparu rhestr o gynrychiolwyr myfyrwyr y paneli pwnc i fyfyrwyr y Bwrdd Academaidd.</p>	Darparu rhestr o gynrychiolwyr myfyrwyr y paneli pwnc i fyfyrwyr y BA	Mai 2015
	<p>5.6. Fel rhan o'r drafodaeth ar gynlluniau pynciol trafodwyd y pwysigrwydd o ail-edrych ar y targedau yn sgil data diweddaraf y Cyngor Cyllido a'r targedau a osodwyd gan y Coleg gan fod rhai targedau yn uwch neu'n is o lawer nag y rhagwelwyd. Nodwyd bod y Cyngor Cyllido wedi ymestyn yr un targedau hyd 2016/17.</p>		
	<p>5.7. Argymhellwyd rhannu arfer da ar lwyddiannau rhai meysydd wrth oddiweddyd targedau niferoedd myfyrwyr.</p> <p>5.8. Adroddodd y Prif Weithredwr ar yr ansicrwydd ynghylch cyllideb y Coleg yn y dyfodol. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y byddai hyn yn effeithio ar yr adnoddau a fyddai ar gael ac, o ganlyniad, bydd rhaid ystyried</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	blaenoriaethu meysydd neu elfennau oddi fewn i feysydd academiaidd.		
<b>6. Ieithoedd Modern</b>	6.1. Derbyniwyd adroddiad llafar ar sefyllfa gyfredol Ieithoedd Modern gan y Prif Weithredwr. Nodwyd y bydd cydlynedd cenedlaethol yn arwain ac yn goruchwyllo'r maes wedi ei leoli ym Mhrifysgol Abertawe. Bydd y drefn newydd wedi'u cytuno yn yr wythnosau nesaf.		
<b>7. Tystysgrif Sgiliau Iaith</b>	7.1. Derbyniwyd adroddiad llafar ar drefniadau achredu'r Dystysgrif Sgiliau Iaith gan Dr Gwennan Schiavone. Nodwyd bod y Coleg mewn trafodaethau â Chyd-bwyllgor Addysg Cymru i achredu'r dystysgrif gan ddechrau yn 2017. Bydd modd cynnig y dystysgrif i'r gweithle ar ôl hynny.		
<b>8. Pwyllgor Cydweithio Academiaidd</b>  <b>(BA/15/02/08)</b>	<p>8.1. Nodwyd cofnodion 21 Ionawr 2015 a 22 Ebrill 2015, er gwybodaeth.</p> <p>8.2. Yn sgil tymor yr aelod myfyrwyr yn dod i ben argymhellwyd cynnig enw cynrychiolydd trwy ohebiaeth.</p> <p>8.3. Cyfeiriwyd at y ffaith bod nifer o aelodau'r Pwyllgor Cydweithio Academiaidd, sy'n weinyddwyr yng nghofrestrfeydd y sefydliadau, o'r farn unfrydol bod sefydlu proses i gefnogi cynlluniau cydweithredol yn holl bwysig.</p> <p>8.4. Yn hyn o beth cyflwynwyd papur ar weithredu prosiectau cydweithredol gan y Prif Weithredwr.</p> <p>8.5. Adolygwyd y papur i'w gyfeirio at y Bwrdd Cyfarwyddwyr er mwyn sefydlu trefniadau parhaol ar gyfer gweithredu a lleoli prosiectau cenedlaethol.</p>	JE i ddarparu enw	Mai 2015
<b>9. Cynllun Staffio Academiaidd</b>	9.1. Derbyniwyd diweddariad llafar gan Dr Dylan Phillips ar Gynllun Staffio Academiaidd y Coleg.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>9.2. Adroddwyd yr hysbysebwyd 18 swydd i'w cyllido o 2015/16.</p> <p>9.3. Adroddwyd bod model cynllunio newydd wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 4 Mawrth 2015 sy'n ddibynnol ar gyllideb y Coleg y tu hwnt i 2017.</p> <p>9.4. Yn dilyn trafodaeth lawn ar ddyfodol y Cyflun Staffio nodwyd gofidion yr aelodau ynghylch toriadau posibl yng nghyllideb y Coleg. Cytunwyd y gallai hyn arwain at danseilio'r cynnydd a wnaed ym maes addysg uwch cyfrwng Cymraeg ers sefydlu'r Coleg. Pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd cynnal trefniadau cynllunio strategol y Coleg.</p> <p>9.5. Trafodwyd y graddau y gellid yn rhesymol ddisgwyl i'r prifysgolion gymryd cyfrifoldeb dros gyllido swyddi yn dilyn pum mlynedd o gefnogaeth gan y Coleg. Cyfeiriwyd at nifer o heriau ond nodwyd hefyd na allai'r prifysgolion fod yn llwyr ddibynnol ar y Coleg i gynnal y ddarpariaeth.</p> <p>9.6. Cafwyd trafodaeth fer ar strwythurau gwahanol canghennau'r Coleg yn y sefydliadau a nodwyd yr angen i'r canghennau ddatblygu wrth i'r Coleg esblygu.</p>		
<p><b>10. Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil</b></p> <p><b>(BA/15/02/10)</b></p>	<p>10.1. Cafwyd cyflwyniad ar bapur Ysgoloriaethau Ymchwil: Argymhelliad y Gwerthusiad gan Dr Dylan Phillips.</p> <p>10.2. Nodwyd bod y Coleg wedi cyllido 100 o fyfyrwyr doethuriaeth erbyn hyn. Er y canmolwyd y Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil gan y Gwerthusiad cafwyd nifer o argymhellion i'w hystyried gan y Coleg.</p> <p>10.3. Cafwyd trafodaeth ar yr argymhellion, ac yn amodol ar gyllid, ystyriwyd a ddylid:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) dyfarnu llai o ysgoloriaethau ymchwil yn y dyfodol</li> <li>(ii) canolbwyntio dyfarniadau mewn meysydd / disgyblaethau lle mae prinder staff academiaidd sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg</li> </ul>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>(iii) dyfarnu ysgoloriaethau sy'n gydnaws â themâu polisi cyhoeddus</p> <p>10.4. Cytunwyd na ddylid dyfarnu llai o ysgoloriaethau; bod perygl canolbwyntio ar ddyfarniadau mewn meysydd penodol; ac na ddylid cyfyngu ar ddyfarniadau yn sgil polisi cyhoeddus.</p> <p>10.5. Cytunwyd i ddarparu unrhyw awgrymiadau ar ddulliau eraill y gallai'r Coleg gefnogi ymchwil cyfrwng Cymraeg ar lefel doethuriaeth yn y sefydliadau drwy ohebiaeth.</p>	Aelodau i ohebu â DP	Erbyn diwedd Mehefin 2015
<p><b>11. Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil a'r Coleg (BA/15/02/11)</b></p>	<p>11.1 Cafwyd cyflwyniad ar bapur ynghylch y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) a'r Coleg gan y Cofrestrydd.</p> <p>11.2 Cafwyd trafodaeth ar ddylanwad y REF ar benderfyniadau cyllidol y Coleg. Ystyriwyd nad oedd yn addas i'r Coleg ddibynnu ar ganlyniadau'r REF yn unig gan mai gorchwyl y Coleg yw llunio llwybr dilyniant i ddenu myfyrwyr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>11.3 Nodwyd y byddai argymhellion y Bwrdd Academaidd yn cael eu cyfeirio at y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 17 Mehefin 2015.</p> <p>11.4 Cylchredir y ddogfen derfynol.</p>		
<p><b>12. Strategaeth Ymchwil (BA/15/02/12)</b></p>	<p>12.1 Nodwyd cofnodion drafft y Grŵp Ymchwil a Chyhoeddi, 12 Mawrth 2015, er gwybodaeth.</p> <p>12.2 Cyflwynwyd strategaeth ymchwil y Coleg gan y Prif Weithredwr. Cafwyd trafodaeth lawn lle argymhellwyd nifer o bwyntiau gan gynnwys pwysigrwydd cyhoeddi ymchwil trwy gyfrwng y Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg, er mwyn cyrraedd llwyfan rhyngwladol.</p>	Deon i adrodd ar y drafodaeth i'r Grŵp	3 Mehefin 2015
<p><b>13. Ehangu mynediad a chyfranogiad (BA/15/02/13)</b></p>	<p>13.1. Nodwyd ymateb y Coleg i gylchlythyr y Cyngor Cyllido.</p> <p>13.2. Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa gyfredol gan y Prif Weithredwr. Nodwyd bod y Cyngor Cyllido yn parhau i</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>flaenoriaethu ehangu mynediad a chyfranogiad. Nodwyd ymhellach bod y Coleg yn cyllido prosiect dilyniant sy'n codi ymwybyddiaeth disgyblion o flwyddyn 9 ymlaen. Cyfeiriwyd at waith <i>First Campus</i> yn y de ddwyrain sy'n ceisio denu disgyblion o gefndiroedd difreintiedig.</p>		
<p><b>14. Pynciau cysylltiedig ag lechyd (BA/15/02/14)</b></p>	<p>14.1. Nodwyd camau gweithredu argymhellion yn deillio o adroddiad ar yr adolygiad ar ran y Coleg gan Dr Elin Walker Jones</p> <p>14.2. Cyfeiriwyd at lansiad y cwrs Ymwybyddiaeth iaith ym maes Gwaith Cymdeithasol, sef y Cwrs Agored Enfawr Arlein (CAEA neu MOOC) cyntaf i'w greu trwy gyfrwng y Gymraeg, ar 21 Mai 2015.</p> <p>14.3. Cytunwyd y dylai'r Coleg ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus ar Adolygiad o Fuddsoddi mewn Addysg i Weithwyr lechyd Proffesiynol.</p>	<p>Cofrestrydd i baratoi</p>	<p>Mai 2015</p>
<p><b>15. Materion yn codi</b></p>	<p>15.1. <u>Eitem 12.3 - Datganiad safbwynt ehangu mynediad a chyfranogiad</u> Nodwyd y byddai'r Cofrestrydd yn paratoi datganiad safbwynt diwygiedig.</p> <p>15.2 <u>Eitem 13.3 – Maes lechyd</u> Adroddwyd bod cyfarfod wedi'i drefnu gyda'r Gweinidog lechyd i drafod gwaith y Coleg ym maes lechyd.</p>	<p>DT i baratoi datganiad</p>	<p>Haf 2015</p>
<p><b>16. UFA</b></p>	<p>16.1. Nodwyd y materion y deisyfai'r cynrychiolwyr myfyrwyr drafod yn ystod eu tymor aelodaeth 2015/16:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deunyddiau astudio priodol</li> <li>• Prinder darlithwyr mewn rhai meysydd</li> <li>• Gwybodaeth a llenyddiaeth i ddisgyblion a myfyrwyr o'r Coleg</li> <li>• Ymwybyddiaeth o ap y Coleg</li> </ul> <p>16.2. Nododd y Prif Weithredwr y byddai'r Bwrdd Cyfarwyddwyr</p>		



Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>yn ei gyfarfod nesaf ar 17 Mehefin 2015 yn trafod cynllun strategol y Coleg a pherthynas y Coleg gyda'r sector addysg bellach.</p> <p>16.3. Nodwyd bod y Coleg yn sefydlu Gwobr Merêd, a ddyfernir yn yr Eisteddfod Genedlaethol am y tro cyntaf eleni. Bydd y Wobr yn cydnabod cyfraniad myfyriwr, sydd yn aelod cyfredol o'r Coleg, i'r bywyd a'r diwylliant Cymraeg, o fewn prifysgol yn ehangach.</p> <p>16.4. Adroddodd y Deon ei fod yn aros dros nos i gwrdd â staff a myfyrwyr Prifysgol Glyndŵr i drafod datblygu'r ddarpariaeth Cymraeg.</p> <p>16.5. Adroddodd y Deon yn ogystal ar ei ymweliadau â'r canghennau.</p>		
<p><b>17. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf</b></p>	<p>17.1. Nodwyd y dyddiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 14 Hydref 2015, Prifysgol Bangor</li> <li>• 3 Chwefror 2016, Prifysgol Abertawe</li> <li>• 11 Mai 2016, Prifysgol Caerdydd</li> </ul>		